

Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – cyhoeddwyd 21 Hydref 2021

A. ASESIAID O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae Cynllun Diogelu'r Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu er mwyn nodi cyfrifoldebau ac ymrwymadau lefel uchel Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddi i ddiwallu'r galw a ddaw yn ystod gaeaf 2021/22. Mae hefyd yn cadarnhau'r blaenoriaethau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG gynnal ein gwasanaethau allweddol ar gyfer pobl Cymru yn ystod y gaeaf, ac i ddiogelu Cymru.

Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer rhanddeiliaid, ynghylch yr ystod o gamau gweithredu a chynlluniau wrth gefn mae disgwyl iddynt eu gweithredu ar draws y system iechyd a gofal, a gyda phartneriaid ehangach, rheoli'r argyfwng iechyd y cyhoedd a darparu gwasanaethau dros gyfnod heriol y gaeaf. Mae'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn cydweithio ar draws y wlad i ddiogelu Cymru.

Cynhaliwyd gweithgarwch ymchwil amrywiol (gan gynnwys arolygon plant) a bydd hyn yn parhau i gael ei gynnal ledled Cymru a'r DU i ddeall effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc ac ar wasanaethau iechyd a gofal plant. Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn llywio'r egwyddorion a'r dulliau a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru wrth i ni barhau i ddysgu a deall mwy am Covid-19.

Cydnabyddir ar hyn o bryd fod plant iau mewn llai o berygl o Covid-19. Mae hyn yn cael ei ddangos drwy risg is i blant iau ddal y clefyd, yn ogystal â risg is iddynt ddatblygu symptomau difrifol o ganlyniad i ddal Covid-19. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau sydd gan blant wedi cynyddu wrth i'r cyfyngiadau gael eu lleddfu ac felly rydym wedi gweld cynnydd mewn achosion. Mae Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â'r boblogaeth gyfan ac felly mae plant wedi'u cynnwys yn y gofynion. Canfu astudiaeth gan Brifysgol Abertawe, er y gallai plant fod yn llai agored i ddal Covid-19, eu bod yn debygol o fod yn abl i wrthsefyll yr effeithiau cyd-destunol ehangach. O ganlyniad, mae plant yn fwy tebygol o brofi straen, pryder, problemau ymddygiad ac ofn sylweddol sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae'n bwysig sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, a rhaid i wasanaethau iechyd meddwl i blant barhau i fod ar gael i'r rhai sydd angen cymorth. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r GIG a phartneriaid ehangach i gynyddu capasiti gwasanaethau fel y gallwn fodloni'r cynnydd presennol a disgwyliedig yn y galw am iechyd meddwl. Mae Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi ein blaenoriaethau a'r camau rydym yn eu cymryd i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Mae gweithredu gwasanaethau hanfodol drwy aeaf 2021/22 yn bwysig i blant o bob oed. Mae Cynllun y Gaeaf yn cydnabod yr angen i gynnal gwasanaethau hanfodol ac yn nodi'r anghenion canlynol:

- Dylai gwasanaethau gael eu llunio o amgylch yr unigolyn a grwpiau o bobl, ar sail eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch;
- Ni ddylai pobl ond mynd i ysbyty cyffredinol pan fo hynny'n hanfodol, a dylai gwasanaethau ysbyty gael eu cynllunio i leihau'r cyfnod a dreulir yn yr ysbyty;
- Symud adnoddau i'r gymuned, fel y gellir cael mynediad ynghynt at ofal mewn ysbyty (pan fo angen);
- Defnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion. Mae'r cynllun hefyd yn tynnu sylw at yr angen i baratoi ar gyfer cyfraddau heintio uwch o'r feirws syncytaidd anadlol eleni ymysg plant ifanc, a'r angen i sefydliadau'r GIG sicrhau bod digon o gapasiti pediatriig ar gyfer gofal aciwt a gofal critigol.

Brechu

Argymhellodd pedwar prif swyddog meddygol y DU y dylid cynnig y brechlyn Covid-19 i bobl ifanc 12 i 15 oed ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus a derbyn cyngor pellach gan uwch-glinigwyr annibynnol ac arbenigwyr ieched y cyhoedd. Dywedodd y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) hefyd fod manteision brechu ychydig yn fwy na'r niwed hysbys posibl yn y grŵp oedran hwn.

Mae brechu plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn y grŵp oedran hwn ar y gweill yng Nghymru – rydym yn disgwyl y bydd pawb yn y grŵp oedran hwn wedi cael cynnig apwyntiad erbyn diwedd mis Hydref hanner tymor.

Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed hefyd wedi cael cynnig brechiad – mae mwy na 70% wedi manteisio ar y cynnig. Dri mis cyn eu pen-blwydd yn 18 oed, byddant yn cael cynnig eu hail ddos.

Mae'r penderfyniad i gael brechlyn Covid-19 yn ddewis i bob unigolyn ei wneud.

Bydd y JCVI yn ystyried a ddylid cynnig ail ddos i blant a phobl ifanc sydd ar hyn o bryd yn gymwys i gael un dos, pan fydd canfyddiadau pellach ar gael.

Mae rhagor o wybodaeth am frechu plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://llyw.cymru/brechlyn-covid-19-i-bobl-ifanc-12-i-15-oed>

Ochr yn ochr â'r rhaglen frechu Covid-19, mae ein timau gofal ieched yn darparu'r rhaglen frechu dymhorol ar gyfer y fflw. Yn gryno, dyma'r grwpiau blaenoriaeth ar gyfer 2021-22:

- plant sy'n dwy neu'n dair oed ar 31 Awst 2021
- Plant ysgol gynradd o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 (yn gynwysedig)
- plant ysgol uwchradd Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 (yn gynwysedig)

2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Drwy ddatblygu Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y bwriad yw cael effaith gadarnhaol o ran nifer o erthyglau Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, yn enwedig:

Erthygl 6: Yr hawl i fywyd ac i dyfu i fyny i fod yn iach

Erthygl 19: Yr hawl i beidio â chael eu niweidio a chael gofal a'u cadw'n ddiogel

Erthygl 20: Yr hawl i dderbyn gofal yn iawn os na all y plentyn fyw gyda'i deulu.

Erthygl 23: Yr hawl i ofal a chymorth arbennig os oes gan y plentyn anabledd fel ei fod yn gallu byw bywyd llawn ac annibynnol.


Erthygl 24: Yr hawl i fwyd da, dŵr ac i weld meddyg os ydynt yn sâl

Erthygl 25: Hawl plentyn nad yw'n byw gyda'i deulu i rywun wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel

Erthygl 39: Yr hawl i gael cymorth arbennig os caiff ei gam-drin

Rhan o swyddogaeth Cynllun y Gaeaf yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn cydweithio ledled y wlad i ddiogelu Cymru; mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Rydym wedi canolbwyntio ar reoli a lliniaru yn erbyn y pum niwed sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol:



Mae Cynllun y Gaeaf yn atgyfnerthu'r angen i gynnal gwasanaethau hanfodol yn ystod gaeaf 2021/22 a thu hwnt. I blant a phobl ifanc yn arbennig, mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, boed hynny ar gyfer eu lles corfforol neu feddyliol.

Oherwydd cyflwyno nifer o atebion digidol i fynd i'r afael ag anghenion cymorth plant a phobl ifanc (er enghraifft, pecyn cymorth iechyd meddwl y person ifanc a chanolfan wybodaeth ar gyfer plant ifanc â phrofiad o ofal), bydd angen cefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Bydd angen sicrhau bod plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gallu manteisio ar y sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio gwasanaethau digidol a'r sgiliau sydd eu hangen. O ganlyniad, yn y camau cychwynnol, gall rhai plant a phobl ifanc, sydd naill

ai'n byw mewn tlodi neu mewn ardaloedd gwledig nad oes ganddynt fynediad at fand eang, gael eu heffeithio'n negyddol o ran cael gafael ar wybodaeth.

Mae'r cynllun yn nodi amrywiaeth o feysydd y mae angen i sefydliadau'r GIG a'u partneriaid gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol ohonynt wrth gynllunio ar gyfer y gaeaf. Er nad oes adran benodol ar gyfer plant, nodir gofynion penodol ar gyfer gwasanaethau plant ac mae disgwyliad bod sefydliadau partner yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau priodol i blant a phobl ifanc yn unol â'u dyletswyddau statudol.

Mae Cynllun y Gaeaf yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gwybodaeth dda i bawb, drwy amrywiaeth o dulliau (gan gynnwys cynadleddau i'r wasg, defnyddio teledu, radio, papurau newydd a chyfryngau cymdeithasol) i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl gan ddefnyddio'r dulliau sydd orau ganddynt. Bydd hyn yn cynnwys cyfryngau sy'n addas i blant a chymorth sy'n cael ei reoli drwy ysgolion a sefydliadau addysgol (e.e. meithrinfeydd ac addysg bellach).